



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Gwybodaeth gefndir ar gyfer
Aseidiadau o Wariant Safonol

Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Mai 2019

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:

Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaeth Gweithlu

Yr Is-adran Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5223

e-bost: LGFPSettlement@llyw.cymru

Gellir cael hyd i'r ddogfen hon ar Wefan Llywodraeth Cymru

hefyd, yn:

<http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/lg-settlement-2019-20/?skip=1&lang=cy>

Mae ciwbiau data manwl hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru. Mae'r data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn ar gael ar StatsCymru yn:

www.statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Settlement

Cynnwys	i - iii
Rhagair	iv-xii
Dadansoddiad o Gyfanswm y Gwariant Safonol (TSS)	1 - 4
Rhagdybiaethau cyffredinol wrth gyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol (SSA).	1
Gwahanu'r SSA rhwng haen yr awdurdod unedol a haen yr heddlu.	2
Gwahanu'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) a'r swm y gellir ei ddsbarthu o Ardrethi Annomestig (NDR) rhwng haen yr awdurdod unedol a haen yr heddlu,	3
Esboniad o'r broses o gydgasglu'r SSA - cyfanswm cyffredinol cyllido a gwariant TSS (gan anwybyddu'r rhaniad rhwng awdurdodau unedol a'r heddlu).	4
Crynodebau o SSAs, Cyllid Allanol Cyfun (AEF), hawl i dderbyn RSG a chyfrannau o'r swm y gellir ei ddsbarthu o'r NDR	5 - 11
Crynodeb o'r SSA a'i gydrannau, hy. RSG, NDR, incwm o'r dreth gyngor (gan dybio gwariant sydd yn unol â lefel yr SSA).	5
Crynodeb o'r SSA a'i gydrannau, wedi'i ddangos mewn punnoedd fesul pen o'r boblogaeth. Defnyddir poblogaeth sy'n seiliedig ar ragamcanion 2014 o'r rhai fydd fel arfer yn preswyllo yn yr ardal ar 30 Mehefin 2019, yn ôl amcangyfrif Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.	6
Cymharu cyfanswm yr SSA ar gyfer Setliadau 2018-19 a 2019-20, gan roi'r gwahaniaeth mewn termau absoliwt ac mewn canrannau.	7
Cyllid Allanol Cyfun (AEF) - swm yr RSG, yr NDR a grant yr heddlu ar gyfer pob awdurdod, a'r ffigur hwn wedi'i fynegi fel canran o'r SSA.	8
Cymharu'r RSG rhwng Setliadau 2018-19 a 2019-20, gan roi'r gwahaniaeth mewn termau absoliwt ac mewn canrannau.	9
Cymharu'r NDR rhwng Setliadau 2018-19 a 2019-20, gan roi'r gwahaniaeth mewn termau absoliwt ac mewn canrannau.	10
Y newid cyffredinol i'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) rhwng 2018-19 a 2019-20- yr hawl i'r RSG a'r NDR mewn termau absoliwt ac mewn canrannau.	11

Dadansoddiad o Aseidiadau ar Sail Dangosyddion (IBAs) ar gyfer awdurdodau unedol**13 – 82**

Tablau'n dadansoddi holl gydrannau gwasanaeth yr SSA cyfredol, gan ddangos gwerthoedd dangosyddion angen (prif ddangosyddion cyfansawdd neu CPIs) hefyd.

Gwasanaeth	Sector	
Addysgu ysgolion Meithrin a Chynradd a gwasanaethau eraill	Ysgolion prif ffrwd	13
Addysgu mewn ysgolion uwchradd a gwasanaethau eraill	Ysgolion prif ffrwd	14
Addysg arbennig	Ysgolion prif ffrwd	15
Cyflog Athrawon	Ysgolion prif ffrwd	16
Gwasanaethau cludiant ysgolion Meithrin a Chynradd	Gwasanaethau ysgolion eraill	17
Prydau ysgol	Gwasanaethau ysgolion eraill	18
Gwasanaethau cludiant ysgolion uwchradd	Gwasanaethau ysgolion eraill	19
Brydau Ysgol am Ddim	Gwasanaethau ysgolion eraill	20
Addysg oedolion ac addysg barhaus	Addysg barhaus	21
Cludiant i addysg oedolion ac addysg barhaus	Addysg barhaus	22
Gwasanaethau ieuencid	Addysg arall	23
Gweinyddu addysg	Addysg arall	24
Plant a phobl ifanc	PSS	25
Gofal a gofal cartref oedolion hŷn	PSS	26
Gwasanaethau cymdeithasol personol i oedolion iau	PSS	27
Grant Byw'n Annibynnol Cymru	PSS	28
Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol	PSS	29
Cynyddu Terfyn Cyfalaf ar gyfer Gofal Preswyl	PSS	30
Gweinyddu'r PSS	PSS	31
Plant sy'n Derbyng Gofol	PSS	32
Grant Gofol Seibiant i Ofalwyr	PSS	33
Tocynnau teithio rhatach	Trafnidiaeth	34
Goleuadau stryd	Trafnidiaeth	35
Cynnal a chadw ffyrdd	Trafnidiaeth	36
Cymorth reffeniw trafndiaeth gyhoeddus	Trafnidiaeth	37
Addysg diogelwch ffyrdd a llwybrau diogel	Trafnidiaeth	38
Gwasanaeth tân	Tân	39
Cofrestru etholiadol	Gwasanaethau eraill	40
Mynwentydd ac amlosgfeydd	Gwasanaethau eraill	41
Amddiffyn yr arfordir	Gwasanaethau eraill	42
Iechyd amgylcheddol ac iechyd porthladdoedd eraill	Gwasanaethau eraill	43
Cynllunio	Gwasanaethau eraill	44
Casglu ysbwriel	Gwasanaethau eraill	45
Gwasanaethau diwylliannol	Gwasanaethau eraill	46
Datblygu economaidd	Gwasanaethau eraill	47
Gwasanaethau llyfrgell	Gwasanaethau eraill	48
Hamdden	Gwasanaethau eraill	49
Tai nad ydynt yn gysylltiedig â'r HRA	Gwasanaethau eraill	50
Atal Digartrefedd	Gwasanaethau eraill	51
Glanhau Strydoedd	Gwasanaethau eraill	52
Diogelwch bwyd	Gwasanaethau eraill	53
Gwaredu sbwriel	Gwasanaethau eraill	54

Gwasanaeth	Sector	
Elfen gwastraff y Grant Refeniw Sengl	Gwasanaethau eraill	55
Diogelu defnyddwyr	Gwasanaethau eraill	56
Gweinyddu'r dreth gyngor	Gwasanaethau eraill	57
Cymhorthdal Gweinyddu Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor	Gwasanaethau eraill	58
Gwasanaethau Eraill	Gwasanaethau eraill	59
Gweinyddu cyffredinol	Gwasanaethau eraill	60
Draenio	Gwasanaethau eraill	61
Y Parciau Cenedlaethol	Gwasanaethau eraill	62
Grant Amddifadedd	Grant Amddifadedd	63
Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	CTRS	64
Menter Benthycy Llywodraeth Leol - Gwella Priffyrdd	SSA Anghyfredol	65
Menter Benthycy Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif	SSA Anghyfredol	66
Cyllido Dyledion	SSA Anghyfredol	67
Ariannu Asedau	SSA Anghyfredol	68
 Cyfansymiau Sector		
Ysgolion Prif Ffrwd		69
Gwasanaethau Ysgolion Eraill		70
Addysg Barhaus		71
Addysg arall		72
Gwasanaethau Ysgolion		73
Addysg arall		74
Cyfanswm Addysg		75
PSS		76
Trafnidiaeth		77
Tân		78
Gwasanaethau eraill		79
Grant Amddifadedd		80
Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor (CTRS)		81
SSA cyfredol		82
SSA Anghyfredol		83
Cyfanswm SSA		84
Ffigur 1: Dadansoddiad o'r Asesiad o Wariant Safonol cyfredol, fesul awdurdod, 2019-20		86
Ffigur 2: Sectorau SSA cyfredol y pen, fesul awdurdod, 2019-20		87
Atodiad A Gwerthoedd y newidynnau unigol a ddefnyddiwyd yn y model SSA.		88 -105
Atodiad B Y dangosyddion a roddwyd yn Atodiad A wedi'u cyfleu ar ffurf canran o werth Cymru, a'u defnyddio i gyfrifo gwerth y prif ddangosyddion angen.		106-122
Atodiad C Y symiau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo SSA y Sector Cyllido Dyledion; a'r cyfrifiadau cefndirol.		123-125
Atodiad D Crynodeb o gyfrifiadau'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (GCF), gan gynnwys dadansoddiad o GCF 2019-20 a manylion y data a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo.		126-131
Mynegai ar gyfer dangosyddion a ddefnyddiwyd yn y model		132-135
Ffigur 3: Cydgasglu elfennau SSA i gategoriâu dangosydd angen		135

CRYNODEB O WYBODAETH AR GYFER ASESIADAU O WARIANT SAFONOL 2019-20

Rhagair

Dyma gyhoeddiad blynyddol a adwaenir yn gyffredin fel y "Llyfr Gwyrdd". Mae'n rhoi gwybodaeth gefndir a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r setliadau refeniw a chyfalaf ar gyfer awdurdodau unedol a heddluoedd yng Nghymru. Mae'n rhan bwysig o bolisi Llywodraeth Cymru i greu mwy o dryloywder wrth gyhoeddi'r Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol blynyddol.

Casgliad o dablau a gwybodaeth yw'r deunydd yn y cyhoeddiad hwn, a fwriadwyd i'w defnyddio fel gwybodaeth gefndirol gyffredinol er mwyn cyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol (SSAs) ar gyfer 2019-20. Cydymaith ystadegol i Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol 2019-20 ydyw. Mae'n rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer cyfrifo'r SSAs ar gyfer awdurdodau unedol a heddluoedd yng Nghymru, a gwybodaeth fanwl am y dull o gyfrifo SSAs ar gyfer awdurdodau unedol.

Mae'n bwysig deall bod y crynodeb hwn yn dangos SSAs awdurdodau unedol wedi'u dadansoddi i gategoriâu gwasanaeth. Unig bwrpas y dadansoddiad hwn yw cyfrifo cyfanswm yr SSA. Mae gallu awdurdodau unedol a chyrrff yr heddlu i bennu eu blaenoriaethau gwario eu hunain yn parhau i fod yn rhan bwysig o system ddosbarthu Grant Cynnal Refeniw (RSG) Cymru. Felly, ni fwriedir i'r IBAs gwasanaeth a ddangosir yn y cyhoeddiad hwn gael eu defnyddio i bennu'r gwariant a gyllidwyd gan awdurdodau unigol ar gyfer gwasanaethau neilltuol.

Mae'r rhan fwyaf o'r ffigurau a nodwyd yn y llyfr hwn wedi'u talgrynnu. Gan hynny, efallai na fydd y symiau a'r cyfrifiadau a ddangosir yn ymddangos fel pe baent yn gwbl hafal i'r ffigurau yn y tablau. Mae'r cyfrifiadau yn y modelau SSA yn defnyddio data sydd heb ei dalgrynnu yn bennaf.

Cefndir

Cesglir y data a ddefnyddir i gyfrifo dosbarthiad yr SSA ar draws y meysydd gwasanaeth o ffynonellau amrywiol, bob blwyddyn gan amlaf. Yr eithriadau i hyn yw'r data ar aneddiadau a'r gwasgariad, sydd yn seiliedig ar Gyfrifiadau 1991 a 2001, a detholiad o ddangosyddion o Gyfrifiadau 2001 a 2011. Cesglir data arall yn uniongyrchol oddi wrth awdurdodau, gan gynnwys data ar nifer y disgyblion, y ceisiadau cynllunio, yr unedau golau stryd, hydroedd y ffyrdd, hyd yr arfordir, digartrefedd a thai. Darperir data ar nifer yr anheddau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió ynghyd â data ar safleoedd bwyd a masnachu. Caiff ffigurau rhagamcanol ar gyfer poblogaeth awdurdodau lleol eu paratoi gan Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mewn nifer fach o achosion, defnyddir y gwariant gwirioneddol, neu'r amcangyfrif gorau o wariant ar wasanaeth, lle bo'r gwariant wedi'i bennu ymlaen llaw, ac nad yw dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdodau. Mae'r ardollau ar gyfer draenio a'r Parciau Cenedlaethol yn enghreifftiau o hyn.

Cafodd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau eu hadolygu cyn Setliad 2001-02 yn dilyn argymhellion a wnaed mewn adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics. Cafodd yr argymhellion eu hymgorffori yn setliad 2001-02 ac mewn setliadau dilynol wrth gwblhau'r dadansoddiadau angenrheidiol, drwy fecanwaith yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG).

Gweithgor technegol yw'r DSG sydd yn gweithredu o dan Gyngor Partneriaeth Cymru. Mae ei aelodau'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, swyddogion llywodraeth leol a ddewiswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac arbenigwyr annibynnol. Bob blwyddyn, bydd y DSG yn cadw at gylch gwaith a rhaglen waith gytunedig sydd yn edrych ar rai o sectorau'r Setliad yn ogystal â meysydd o ddiddordeb penodol, er enghraifft, materion dosbarthu sydd yn gysylltiedig â grantiau penodol sydd dan ystyriaeth i'w trosglwyddo i'r RSG.

CANLLAW CEFNDIROL I ASESIADAU O WARIANT SAFONOL

Cyflwyniad

1. Bwriedir i Aseidiadau o Wariant Safonol adlewyrchu amrywiaeth yn yr angen am wariant, a gellid disgwyl hynny pe bai'r holl awdurdodau'n ymateb mewn ffordd debyg i'r galw am wasanaethau yn eu hardal. Dyma'r mecanwaith ar gyfer dosbarthu Grant Cynnal Refeniw (RSG) i awdurdodau unedol a heddluoedd a fyddai'n eu galluogi i godi'r un dreth gyngor am ddarparu gwasanaeth o safon debyg. Ymdrinnir isod â'r fethodoleg ar gyfer awdurdodau unedol, ond mae egwyddorion tebyg yn berthnasol wrth ddsbarthu cyllid i heddluoedd.

SSAs a Chyllidebau

2. Ar raddfa Cymru gyfan, mae cyfanswm yr SSAs yr un peth â chyfanswm cyllidebau tybiedig awdurdodau Cymru. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau ynghylch y cynnydd sylfaenol mewn cyllid gan y llywodraeth ganolog a'r swm gwirioneddol tybiedig a godir drwy'r dreth gyngor, yn dylanwadu ar y cyfanswm cyffredinol. Efallai y bydd cyllideb wirioneddol awdurdod yn uwch neu'n is na'i SSA, gan mai mater i bob awdurdod yw penderfyniadau ynghylch lefelau gwasanaeth a ddarperir.

Cyllido'r SSA

3. Mae cyllid yr SSA yn cynnwys tair elfen.

$$\text{SSA} = \text{NDR} + \text{CT} + \text{RSG}$$

NDR yw dyraniad awdurdod o ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. Yng Nghymru, mae hyn yn seiliedig ar gyfran yr awdurdod o'r boblogaeth 18 oed a throsodd.

CT yw cyfanswm yr incwm tybiannol o'r dreth gyngor yn seiliedig ar ffigur treth gyngor safonol wedi'i luosi â nifer yr anheddau o fewn yr awdurdod. Mae'r ffigur safonol ar gyfer y dreth gyngor ym Mand D yr un peth ar gyfer yr holl awdurdodau, ac fe'i gelwir yn **Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol (CTSS)**. Fe'i cyfrifir ar sail Cymru gyfan drwy ganfod y gwahaniaeth rhwng SSAs cyfanredol a'r ffigurau cyfanredol sydd ar gael ar gyfer dosbarthiad yr RSG a'r NDR, a rhannu hynny â nifer yr anheddau yng Nghymru. Gelwir nifer yr anheddau a ddefnyddir yn **sylfaen drethu**, ac i bob pwrpas, dyma nifer yr anheddau cyfwerth â Band D o fewn yr awdurdod sydd yn gorfod talu'r dreth gyngor, wedi'i addasu ar sail nifer yr adeiladau ym mhob band treth gyngor. Cyflwynir y ffigur ar ffurf nifer yr adeiladau ym Mand D y dreth gyngor. Mae'r sylfaen drethu felly'n amrywio rhwng awdurdodau'n dibynnu ar nifer a gwerth yr eiddo ym mhob ardal. Ffigur tybiannol yw **CTSS**, gan fod yr holl awdurdodau lleol yn cyllidebu i gasglu llai o dreth gyngor nag y gellid ei chasglu o'u sylfaen drethu lawn, a chan fod gwariant awdurdodau'n uwch neu'n is na'r SSA. Ariennir gwariant uwch na'r SSA yn gyfan gwbl o'r dreth gyngor ac o ffynonellau incwm lleol eraill.

Swm "cydbwysu" yw'r **RSG**, sydd yn ychwanegu at y symiau sydd ar gael o'r NDR a'r Dreth Gyngor, ac sy'n galluogi awdurdod i wario'n unol â'i SSA.


Cydrannau Unigol yr SSA

- I ddibenion cyfrifo dyraniadau SSA unigol, dadansoddir gwariant refeniw net y llywodraeth leol i 53 o feysydd gwasanaeth tybiannol. Pennir dull dosbarthu ar wahân ar gyfer pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn er mwyn dosbarthu'r cyfanswm ar gyfer y gwasanaeth ar draws yr awdurdodau. Mae'r dulliau dosbarthu wedi'u rhannu i ddau gategori:
 - Fformiwla sy'n seiliedig ar ddangosyddion angen
 - Dosbarthiad sydd yn seiliedig ar wariant gwirioneddol neu amcangyfrifon o wariant.
- Mae'r holl gydrannau "heb eu neilltuo" - ffigurau tybiannol yr ydynt a ddefnyddir fel blociau i adeiladu'r SSA cyffredinol: **nid ydynt yn cynrychioli targedau gwariant ar gyfer gwasanaethau unigol, ac ni fwriedir iddynt ragnodi gwariant o gwbl.**

Diffinio Cyfansymiau Gwasanaeth

- Rhennir y cyfanswm sydd ar gael i'w ddosbarthu fel SSA i ddwy elfen:
 - gwariant cyfredol* - y swm tybiannol sydd ar gael ar gyfer gwariant ar wasanaethau refeniw cyfredol, ee, costau addysgu
 - gwariant anghyfredol* - y swm tybiannol sydd ar gael i gyllido dyledion a chydannau eraill anghyfredol. Yn 2004-05, cyflwynwyd y system benthycu darbodus i ddisodli'r system cymeradwyo credyd.
- Caiff cyfansymiau ar gyfer cydrannau anghyfredol eu cyfrifo ar raddfa Cymru gyfan y tu allan i fformiwla'r SSA, ac maent yn seiliedig ar y symiau y mae awdurdodau wedi'u benthycu yn y gorffennol plws unrhyw ddyled newydd. Cyfrifir y cyfanswm ar gyfer gwariant cyfredol (yr SSA cyfredol) drwy ddiynnu hyn o'r cyfanswm cyffredinol. Gelwir y gwasanaethau sydd yn rhan o'r SSA cyfredol eu gelwir yn 'wasanaethau cyfredol'.
- O'r SSA presennol, mae rhai elfennau sector lle mae cyfanswm y sector wedi'i ragnodi, megis Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Grant Amddifadedd. Gelwir y rhain yn ffigurau gwirioneddol y sector ac maent yn cael eu tynnu o'r SSA presennol cyn i'r data Cyfrif Refeniw gael ei ddefnyddio i bennu gweddill cyfansymiau'r sector. Roedd cyfrif setliad 2019-20 yn defnyddio data Cyfrif Refeniw 2018-19.
- Mae cyfansymiau gwasanaeth o fewn pob sector ar gyfer gweddill y gwasanaethau cyfredol yn deillio o'r data alldro diweddaraf sydd ar gael ar gyfer gwariant. Defnyddiwyd data gwariant alldro 2017-18 ar gyfer cyfrifiadau setliad 2019-20.
- Nid oes data gwariant alldro perthnasol ar gyfer rhai swyddogaethau awdurdod lleol, er enghraifft y rhai sydd wedi bodoli ers llai na dwy flynedd. Mae gan y gwasanaethau sydd yn ymwneud â'r swyddogaethau hyn gyfansymiau wedi'u diffinio, sy'n cael eu bwydo i gyfrifiad yr SSA, ac a elwir yn ffigurau gwirioneddol gwasanaeth. Ar wahân i hyn, maent yn cael eu trin yn yr un modd â gwasanaethau eraill.
- Didynnir cyfansymiau ar gyfer ffigurau gwirioneddol gwasanaeth o gyfanswm sector yr SSA cyfredol perthnasol. Dosberthir y swm sydd yn weddill ymhlith y gwasanaethau eraill, yn dibynnu ar eu cyfran o'r alldro. Ceir dadansoddiad o'r cyfanswm ac o'r SSA cyfredol yn Ffigur 1.
- Mae seilio'r dull hwn ar wasanaethau yn fodd i leihau effaith penderfyniadau gwario awdurdodau unigol ar ddosbarthiad yr SSA. Dim ond rhan o gyfanswm terfynol yr SSA yw pob gwasanaeth, ac ar gyfer pob gwasanaeth, nid yw elfen pob awdurdod unedol ond wedi'i bennu yn nhermau dangosydd angen.

Ffigur 1: Dadansoddiad o'r cyfanswm ac o'r SSA cyfredol ar gyfer 2019-20



Mae cyfansymiau gwariant gwasanaethau wedi'u graddio i sicrhau bod y swm yn hafal i'r cyfanswm ar gyfer blwyddyn y Setliad.

Dosbarthu drwy ddefnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar ddangosyddion angen

12. Dosberthir y rhan fwyaf o wasanaethau ar sail fformiwla sydd yn cynnwys dangosyddion angen. Defnyddir dangosyddion angen yn hytrach na dulliau uniongyrchol o fesur y defnydd o wasanaethau, fel nad oes modd i awdurdodau gael dylanwad uniongyrchol ar eu SSAs, ac ar swm y grant y maent yn ei dderbyn yn sgil hynny. Mae'r dangosyddion a ddefnyddir yn y fformiwla'u yn perthyn i dri chategori.

- Prif grŵp cleientiaid - Y prif ffactor sy'n dylanwadu ar y gost, ee. poblogaeth, niferoedd disgyblion neu hyd ffyrdd.
- Amddifadedd - Dangosyddion i adlewyrchu'r gost ychwanegol o ddarparu gwasanaethau i boblogaethau lle ceir lefelau uwch o amddifadedd, e.e. derbynwyr cymhorthdal incwm, pobl â salwch hirdymor.

- Gwasgariad y boblogaeth - Dangosyddion i adlewyrchu cost ychwanegol darparu gwasanaethau i boblogaethau mewn ardaloedd llai poblog. Datblygwyd dulliau o fesur gwasgariad y boblogaeth i'w defnyddio'n benodol ar gyfer Setliad Llywodraeth Leol Cymru, ar sail patrwm aneddiadau yng Nghymru.
13. Cafodd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau eu hadolygu cyn Setliad 2001-02 yn dilyn adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics. Cafodd argymhellion y gwaith hwn eu gweithredu yn setliadau 2001-02 ac mewn setliadau dilynol. Cynhaliwyd adolygiad mawr o brif fformiwlâu PSS yn 2004, gyda'r fformiwlâu newydd ar gyfer 'plant a phobl ifanc' a 'gwasanaethau i oedolion hŷn yn cael eu hymgorffori yn Setliad 2005-06, ac ar gyfer 'oedolion iau' yn setliad 2007-08.
 14. Defnyddiwyd dulliau modelu ystadegol yn bennaf i greu'r fformiwlâu, ond nid oedd modd gwneud hynny ar gyfer ambell wasanaeth, gan fod y patrwm gwariant ar draws awdurdodau yn amrywio i'r fath raddau, fel bod angen datblygu fformiwlâu yn seiliedig ar farn ddeallus. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer gwasanaethau newydd, lle nad oes data gwariant ar gael, fel bo modd defnyddio modelau ystadegol i greu fformiwlâu.
 15. Nid oes gan rai gwasanaethau eu fformiwlâu eu hunain, ond fe'u dosberthir ar sail fformiwlâu gwasanaeth cysylltiedig. Bydd hyn yn digwydd yn aml yn achos gwasanaeth newydd pan nad yw patrymau gwariant yn hysbys eto, felly defnyddir fformiwlâu'r gwasanaeth sydd yn fwyaf tebyg i'r gwasanaeth newydd. Defnyddir y dull hwn hefyd ar gyfer rhai swyddogaethau cyffredinol, fel gweinyddu, a ddosberthir ar sail gwasanaethau perthnasol, ee, dosberthir gweinyddiaeth addysg ar sail yr SSAs ar gyfer yr holl wasanaethau addysg.
 16. Rhestrir cyfran y cyllid ar gyfer pob awdurdod ar ffurf canran yn yr adrannau ar Asesiadau ar Sail Dangosydd (IBAs) ar gyfer gwasanaethau a sectorau. Dengys hyn y pwysoliad a roddwyd i bob awdurdod ar sail y Prif Ddangosydd Cyfansawdd (CPI). Cyfrifir y CPI drwy luosi gwerth dangosydd pob awdurdod â'r pwysoliad a ddangosir yn y fformiwlâu. Ailadroddir hyn ar gyfer pob rhan o'r fformiwlâu, gan greu cyfanswm wedyn o'r gwerthoedd canlyniadol. Caiff y cyfanswm ei rannu â'r gwerth ar gyfer Cymru a'i ddefnyddio i gyfrifo cyfran ganrannol y cyllid ar gyfer pob awdurdod.
 17. Caiff elfen cyllido cyfalaf SSA awdurdod ei modelu ar wahân. Cyflwynwyd y system benthycia darbodus yn 2004-05. Bydd dyled a ysgwyddwyd o ganlyniad i fenthyciadau a gymeradwywyd gan y Llywodraeth ar gyfer prosiectau cyfalaf a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2004 yn cael eu diddymu ar sail balans sydd yn gostwng dros 25 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru'n asesu pa fenthyciadau newydd y mae'n barod i'w cefnogi, ac yn cynnwys hyn yn y cyfrifiadau, ynghyd â dyled a ysgwyddwyd eisoes o ganlyniad i fenthyciadau a gymeradwywyd gan y Llywodraeth. Ceir hefyd addasiadau ar gyfer grantiau a ddarparwyd gan y Llywodraeth ganolog i ddibenion cyllido cyfalaf.

Dosbarthu drwy ddefnyddio gwariant

18. Mewn nifer fach o achosion, defnyddir y gwariant gwirioneddol ar wasanaeth (neu'r amcangyfrif gorau posib o hynny). Dyma fydd yn digwydd pan fo'r gwariant wedi'i bennu ymlaen llaw, a heb fod o dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdod. Mae ardollau draenio a'r Parciau Cenedlaethol yn enghreifftiau o hyn.

Crynodeb

19. Cyfrifir cyfanswm SSA awdurdod fel swm yr SSA Cyfredol a'r elfennau cyllido dyledion.

20. Mae'r canlynol yn creu sail ar gyfer y system.
 - Pennir maint cyffredinol y Setliad ar sail cyfansymiau rheolaeth y llywodraeth.
 - Pennir pwysau cymharol y gwasanaethau yn ôl patrymau gwariant gwirioneddol ar raddfa Cymru gyfan.
 - Defnyddir dangosyddion gwrthrychol o angen cymharol awdurdodau i wario er mwyn penderfynu ar ddsbarthiad o fewn gwasanaethau fel arfer.
 - Nid targedau gwariant ar gyfer awdurdodau yw SSAs a gwasanaethau cydrannol. Nid ydynt ond yn gyfrwng i ddsbarthu grant.

CYLLID ATODOL YCHWANEGOL AR GYFER 2019-20

Mae unrhyw gyllid ychwanegol wedi cael ei gynnwys ar ôl cyfrifiadau'r SSA. Nid yw felly wedi'i adlewyrchu yn unrhyw un o'r Aseidiadau ar Sail Dangosyddion, ac mae'n annibynnol o gyfrifiadau'r SSA. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru '*Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*' yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu cyllid er mwyn rhoi mewn lle 'llawr' ar gyfer setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol. Ar gyfer Setliad 2019-20, mae cyllid atodol ychwanegol wedi ei ychwanegu at Gyllid Allanol Cyfun i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn wynebu gostyngiad o fwy na 0.3 y cant. Mae'r tablau crynhoi yn y cyhoeddiad hwn yn cynnwys y cyllid atodol ychwanegol.

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-20**RHAGDYBIAETHAU CYFFREDINOL 2019-20**

(Nodir y symiau mewn £m oni nodir fel arall)

	Ffigurau Setliad Terfynol
	<hr/> Cyfanswm <hr/>
Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	4,380.564
plws Incwm y Dreth Gyngor	1,722.068
Is-gyfanswm	6,102.632
plws Grant yr heddlu (gan gynnwys cyllid gwaelod)	213.882
Is-gyfanswm (yr holl gyllidebau)	6,316.514
llai Cyrff penodedig	3.203
llai Cynghorau cymuned	44.138
llai Rhyddhad ardrethi dewisol	3.909
Is-gyfanswm = Cyllidebau sylfaen	6,265.264
yn SSAs awdurdod	5,780.158

SSA CYFANREDOL

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-20

DADGYFUNO SSA RHWNG HAENAU

(Nodir y symiau mewn £m oni nodir fel arall)

	<u>Awdurdod Unedol</u>	<u>Heddlu</u>	<u>Cyfanswm</u>
1. Ffigurau nad ydynt yn rhai gwirioneddol ar gyfer 2019-20	4,999.698	267.723	5,267.421
2. Ffigurau Gwirioneddol ar gyfer 2019-20 ¹			
Grant Amddifadedd	22.000		22.000
Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	244.000		244.000
Y Parciau Cenedlaethol	3.175		3.175
Draenio	1.128		1.128
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – Cymhorthdal Gweinyddu	4.770		4.770
Cynyddu Terfyn Cyfalaf ar gyfer Gofal Preswyl	14.000		14.000
Atal Digartrefedd	6.000		6.000
Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol	19.000		19.000
Elfen gwastraff y Grant Refeniw Sengl	35.000		35.000
Grant Byw'n Annibynnol Cymru	27.000		27.000
Grant Gofal Seibiant i Ofalwyr	3.000		3.000
Plant sy'n Derbyn Gofal	7.415		7.415
Grant Brydau Ysgol am Ddim	7.000		7.000
Grant Cyflog Athrawon	13.726		13.726
Cyfanswm gwirioneddol	407.215		407.215
3. Cyfanred o SSA cyfredol	5,406.912	267.723	5,674.636
4. Eitemau Anghyfredol			
Menter Benthycia Llywodraeth Leol - Gwella Priffyrdd ¹	12.000		12.000
Ariannu Asedau ¹	26.283		26.283
Menter Benthycia Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif ¹	10.000		10.000
Cyllido Dyledion	324.964	3.500	328.464
Cyfanswm Anghyfredol	373.246	3.500	376.746
5. Cyfanred haenau o SSA	5,780.158	271.223	6,051.382
Cyfrannau'r haenau (%)	95.52	4.48	

¹ Mae'r rhain yn cynrychioli'r gwasanaethau ble nad yw gwariant alldro yn cael ei ddefnyddio i bennu'r Asesiad ar Sail Dangosyddion (IBA). Gweler y cyfeiriad at ffigurau gwirioneddol ym mharagraff 9 o'r cyflwyniad am fanylion pellach (tud vii). Caiff pob gwasanaeth ei gynrychioli ar ffurf Dangosydd Asesiad ar Sail Dangosyddion (IBA), Gweler IBA y Gwasanaeth perthnasol er mwyn gweld dosbarthiad fesul Awdurdod Unedol.

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-20

DADGYFUNO RSG AC ARDRETHI ANNOMESTIG RHWNG HAENAU

(Nodir y symiau mewn £m oni nodir fel arall)

1.	Cyllid Allanol Cyfun (AEF)			4,380.564
	Ilai	Swm o NDR y gellir ei ddosbarthu		1,061.000
2.	Cyfanswm y Grant Cynnal Refeniw (RSG)			3,319.564
	Ilai	Taliadau i gyrrff penodedig		3.203
3.	RSG ar gael i'w ddosbarthu i Awdurdodau Unedol a'r Heddlu			3,316.361
4.	AEF Dosbarthadwy			4,377.361
	Ychwanegiad Cyllid			3.470
5.	Incwm y dreth gyngor ar wariant safonol			1,674.021
6.	Ymrianiad yr Haenau	<u>Awdurdod Unedol</u>	<u>Heddlu</u>	<u>Cyfanswm</u>
	Cyfanred SSA	5,780.158	271.223	6,051.382
	Grant yr heddlu £m (gan gynnwys cyllid gwaelod)		213.882	213.882
	SSA a grant yr heddlu £m	5,780.158	485.106	6,265.264
	% o'r cyfanswm	92.26%	7.74%	100.00%
	AEF Dosbarthadwy	4,233.961	143.400	4,377.361
	Ardrethi Annomestig (£m) ¹	1,007.950	53.050	1,061.000
	Cyfran o Ardrethi Annomestig (£ miliwn)	95.00%	5.00%	100.00%
	RSG i'w ddosbarthu (£m)	3,226.011	90.350	3,316.361
	Incwm y dreth gyngor ar wariant safonol	1,546.197	127.823	1,674.021
	Sylfaen drethu (miliwn cyfwerth â band D) ²	1.240	1.248	
	CTSS ar gyfer 2019-20 (£)	1,246.94	102.42	

¹ Mae cyfansymiau haenau'r ardrethi annomestig wedi'u cyfrifo i greu ymrianiad o 95% i'r Awdurdodau Unedol a 5% i'r Heddlu² Amcangyfrifon sylfaen drethu 2019-20 wedi tynnu premiymau a ddefnyddiwyd ar gyfer Awdurdodau Unedol, ac amcangyfrifon sylfaen drethu yn cynnwys premiymau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Heddlu.

SSA CYFANREDOL

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-20

DARLUN O'R SSA CYFANREDOL

DARPARIAETH REFENIW LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU 2019-20

	Ariannu (£m)	Gwariant (£m)	
<p>incwm y dreth gyngor a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dreth gyngor ar gyfer gwariant £1,674.0</p>	<p>Incwm y Dreth Gyngor £1,674.0</p>	<p>SSA Anghyfredol £376.7</p>	
	<p>Ardrethi annomestig £1,061.0</p>		
<p>Cyllid Allanol Cyfun plws Ychwanegiad Cyllid £4,597.9</p>	<p>Grant Cynnal Refeniw i'w ddsbarthu i awdurdodau £3,316.4</p>	<p>SSA cyfredol £5,674.6</p>	<p>Cyfanred SSAs £6,051.4</p>
	<p>Taliadau i gyrrff penodedig £3.2</p>	<p>Taliadau i gyrrff penodedig £3.2</p>	
	<p>Grant penodol yr heddlu £213.9</p>	<p>Grant penodol yr heddlu £213.9</p>	
	<p>Cyllid Atodol Ychwanegol £3.5</p>		

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Crynodeb o'r SSA a'i gydrannau

<i>£ oedd</i>						
Awdurdod Unedol	Asesiad o Wariant Safonol ¹	Grant Cynnal Refeniw (RSG)	Grant yr Heddlu (gan gynnwys cyllid gwaelodol) ²	Cyfran o'r Ardrethi Annomestig	Incwm y Dreth Gyngor ³	Cyllid Atodol Ychwanegol ¹
Ynys Môn	134,022,521	72,768,178	.	22,753,674	38,500,669	269,160
Gwynedd	239,019,121	136,049,325	.	40,502,468	62,467,328	.
Conwy	216,480,768	115,004,134	.	38,496,963	62,979,671	691,317
Sir Ddinbych	193,781,542	113,039,802	.	30,596,859	50,144,880	.
Sir y Fflint	269,126,651	138,739,227	.	49,704,455	80,682,969	536,757
Wrecsam	242,950,741	132,327,762	.	42,924,171	67,698,807	.
Powys	250,776,282	129,368,968	.	43,708,126	77,699,189	1,213,511
Ceredigion	141,468,696	77,565,455	.	24,525,848	39,377,393	.
Sir Benfro	231,734,280	121,872,270	.	40,575,534	69,286,475	.
Sir Gaerfyrddin	353,033,602	200,095,782	.	60,292,694	92,645,126	.
Abertawe	436,813,226	242,197,388	.	80,013,486	114,602,351	.
Castell-nedd Port Talbot	275,662,923	168,695,384	.	46,100,360	60,867,178	.
Pen-y-bont ar Ogwr	260,148,024	145,354,407	.	46,452,373	68,341,244	.
Bro Morgannwg	228,101,277	110,310,755	.	41,759,541	76,030,981	.
Rhondda Cynon Taf	465,653,336	290,955,964	.	76,383,152	98,314,219	.
Merthyr Tudful	114,980,186	72,243,608	.	19,060,768	23,675,810	.
Caerffili	345,584,383	211,104,979	.	57,509,290	76,970,115	.
Blaenau Gwent	137,452,599	88,187,251	.	22,628,128	26,637,220	.
Torfaen	175,078,404	103,109,907	.	29,540,013	42,428,484	.
Sir Fynwy	150,529,787	61,788,216	.	30,681,632	58,059,939	759,286
Casnewydd	288,940,265	167,106,461	.	47,236,731	74,597,073	.
Caerdydd	628,819,730	328,125,746	.	116,503,734	184,190,250	.
Yr Heddlu						
Dyfed-Powys	36,618,232	4,454,702	36,993,393	8,900,116	23,263,414	.
Gwent	54,593,080	21,827,973	41,286,576	9,873,463	22,891,644	.
Gogledd Cymru	52,743,337	10,655,048	50,737,774	11,840,978	30,247,312	.
De Cymru	127,268,755	53,412,277	84,864,379	22,435,443	51,421,035	.
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	5,780,158,342	3,226,010,969	.	1,007,950,000	1,546,197,373	3,470,031
Cyfanswm yr heddluoedd	271,223,405	90,350,000	213,882,122	53,050,000	127,823,405	.
Cyfanswm Cymru	6,051,381,747	3,316,360,969	213,882,122	1,061,000,000	1,674,020,778	3,470,031

¹ Nid yw Cyllid Atodol Ychwanegol wedi'i gynnwys yn yr SSA, ac fe'i darparwyd i Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint, Mlaenau Gwent a Sir Fynwy yn unig

² Nid yw Grant yr Heddlu yn berthnasol i Awdurdodau Unedol

³ Gan dybio bod gwariant yn unol â lefel yr SSA

. Nid yw'r eitem data yn berthnasol

TABLAU CRYNHOI

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Crynodeb o'r SSA a'i gydrannau mewn £ fesul pen o'r boblogaeth ¹

Awdurdod Unedol	Asesiad o Wariant Safonol ²	Grant Cynnal Refeniw (RSG)	Grant yr Heddlu (gan gynnwys cyllid gwaelodol) ³	Cyfran o'r Ardrethi Annomestig	Incwm y Dreth Gyngor *	£ oedd y pen
						Cyllid Atodol Ychwanegol ²
Ynys Môn	1,910	1,037	.	324	549	4
Gwynedd	1,927	1,097	.	327	504	.
Conwy	1,850	983	.	329	538	6
Sir Ddinbych	2,024	1,181	.	320	524	.
Sir y Fflint	1,734	894	.	320	520	3
Wrecsam	1,724	939	.	305	480	.
Powys	1,904	982	.	332	590	9
Ceredigion	1,848	1,013	.	320	514	.
Sir Benfro	1,867	982	.	327	558	.
Sir Gaerfyrddin	1,894	1,073	.	323	497	.
Abertawe	1,777	985	.	326	466	.
Castell-nedd Port Talbot	1,948	1,192	.	326	430	.
Pen-y-bont ar Ogwr	1,816	1,015	.	324	477	.
Bro Morgannwg	1,776	859	.	325	592	.
Rhondda Cynon Taf	1,949	1,218	.	320	411	.
Merthyr Tudful	1,940	1,219	.	322	400	.
Caerffili	1,906	1,164	.	317	425	.
Blaenau Gwent	1,981	1,271	.	326	384	.
Torfaen	1,901	1,120	.	321	461	.
Sir Fynwy	1,617	664	.	330	624	8
Casnewydd	1,936	1,120	.	317	500	.
Caerdydd	1,698	886	.	315	497	.
Yr Heddlu						
Dyfed-Powys	71	9	71	17	45	.
Gwent	93	37	71	17	39	.
Gogledd Cymru	75	15	72	17	43	.
De Cymru	96	40	64	17	39	.
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	1,844	1,029	.	322	493	1
Cyfanswm yr heddluoedd	87	29	68	17	41	.
Cyfanswm Cymru	1,931	1,058	68	338	534	1

¹ Gan ddefnyddio rhagamcanion poblogaeth 2019 sydd yn seiliedig ar 2014

² Nid yw Cyllid Atodol Ychwanegol wedi'i gynnwys yn yr SSA, ac fe'i darparwyd i Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint, Mlaenau Gwent a Sir Fynwy yn unig

³ Nid yw Grant yr Heddlu yn berthnasol i Awdurdodau Unedol

* Gan dybio bod gwariant yn unol â lefel yr SSA

. Nid yw'r eitem data yn berthnasol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Cymharu Cyfanswm yr SSA ar gyfer 2018-19 a 2019-20

£ oedd

Awdurdod Unedol	Setliad 2018-2019 ¹	Setliad 2019-2020	Newid	Newid fel canran
Ynys Môn	131,702,377	134,022,521	2,320,144	1.8%
Gwynedd	234,690,055	239,019,121	4,329,066	1.8%
Conwy	213,022,657	216,480,768	3,458,111	1.6%
Sir Ddinbych	189,980,110	193,781,542	3,801,432	2.0%
Sir y Fflint	264,332,825	269,126,651	4,793,827	1.8%
Wrecsam	238,041,833	242,950,741	4,908,907	2.1%
Powys	246,913,012	250,776,282	3,863,270	1.6%
Ceredigion	138,274,910	141,468,696	3,193,787	2.3%
Sir Benfro	226,402,898	231,734,280	5,331,382	2.4%
Sir Gaerfyrddin	346,059,074	353,033,602	6,974,528	2.0%
Abertawe	426,535,479	436,813,226	10,277,747	2.4%
Castell-nedd Port Talbot	269,365,402	275,662,923	6,297,521	2.3%
Pen-y-bont ar Ogwr	255,260,083	260,148,024	4,887,941	1.9%
Bro Morgannwg	222,840,237	228,101,277	5,261,040	2.4%
Rhondda Cynon Taf	455,015,063	465,653,336	10,638,273	2.3%
Merthyr Tudful	112,371,132	114,980,186	2,609,053	2.3%
Caerffili	339,573,735	345,584,383	6,010,648	1.8%
Blaenau Gwent	134,628,140	137,452,599	2,824,460	2.1%
Torfaen	171,020,588	175,078,404	4,057,816	2.4%
Sir Fynwy	147,470,949	150,529,787	3,058,838	2.1%
Casnewydd	281,983,928	288,940,265	6,956,337	2.5%
Caerdydd	611,412,169	628,819,730	17,407,561	2.8%
Yr Heddlu				
Dyfed-Powys	35,859,734	36,618,232	758,499	2.1%
Gwent	53,462,322	54,593,080	1,130,759	2.1%
Gogledd Cymru	51,653,546	52,743,337	1,089,791	2.1%
De Cymru	124,630,160	127,268,755	2,638,595	2.1%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	5,656,896,655	5,780,158,342	123,261,687	2.2%
Cyfanswm yr heddluoedd	265,605,761	271,223,405	5,617,644	2.1%
Cyfanswm Cymru	5,922,502,416	6,051,381,747	128,879,331	2.2%

¹ Dyraniadau gwirioneddol 2018-2019 - ni wneir addasiadau ar gyfer adnoddau ychwanegol yn 2019-2020

TABLAU CRYNHOI

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Cyllid Allanol Cyfun (AEF)¹ plws Cyllid atodol ychwanegol

Awdurdod Unedol	AEF 2019-2020 plws cyllid atodol	
	£	Canran yr SSA
Ynys Môn	95,791,012	71.5%
Gwynedd	176,551,793	73.9%
Conwy	154,192,414	71.2%
Sir Ddinbych	143,636,661	74.1%
Sir y Fflint	188,980,439	70.2%
Wrecsam	175,251,933	72.1%
Powys	174,290,605	69.5%
Ceredigion	102,091,303	72.2%
Sir Benfro	162,447,804	70.1%
Sir Gaerfyrddin	260,388,476	73.8%
Abertawe	322,210,874	73.8%
Castell-nedd Port Talbot	214,795,744	77.9%
Pen-y-bont ar Ogwr	191,806,780	73.7%
Bro Morgannwg	152,070,296	66.7%
Rhondda Cynon Taf	367,339,116	78.9%
Merthyr Tudful	91,304,376	79.4%
Caerffili	268,614,269	77.7%
Blaenau Gwent	110,815,379	80.6%
Torfaen	132,649,920	75.8%
Sir Fynwy	93,229,134	61.9%
Casnewydd	214,343,192	74.2%
Caerdydd	444,629,480	70.7%
Yr Heddlu		
Dyfed-Powys	50,348,211	68.4%
Gwent	72,988,012	76.1%
Gogledd Cymru	73,233,800	70.8%
De Cymru	160,712,099	75.8%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	4,237,431,000	73.3%
Cyfanswm yr heddluoedd	357,282,122	73.7%
Cyfanswm Cymru	4,594,713,122	73.3%

¹ Yn eithrio grantiau penodol ddim yn ymwneud a'r heddlu, a chyrrff penodol wedi eu brigdorri. Yn cynnwys Grant Cynnal Refeniw, ychwanegiad cyllid, cyfran o Ardrethi Annomestig a Grant yr Heddlu penodol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Cymharu'r RSG rhwng 2018-19 a 2019-20

£ oedd

Awdurdod Unedol	Setliad 2018-2019 1	Setliad 2019-2020 2	Newid	Newid fel canran
Ynys Môn	73,237,636	72,768,178	-469,458	-0.6%
Gwynedd	134,936,245	136,049,325	1,113,080	0.8%
Conwy	115,415,995	115,004,134	-411,861	-0.4%
Sir Ddinbych	112,860,337	113,039,802	179,465	0.2%
Sir y Fflint	140,030,719	138,739,227	-1,291,492	-0.9%
Wrecsam	131,545,811	132,327,762	781,951	0.6%
Powys	130,813,426	129,368,968	-1,444,458	-1.1%
Ceredigion	76,478,389	77,565,455	1,087,066	1.4%
Sir Benfro	121,740,102	121,872,270	132,168	0.1%
Sir Gaerfyrddin	199,827,515	200,095,782	268,267	0.1%
Abertawe	239,946,060	242,197,388	2,251,328	0.9%
Castell-nedd Port Talbot	166,732,844	168,695,384	1,962,540	1.2%
Pen-y-bont ar Ogwr	145,779,915	145,354,407	-425,508	-0.3%
Bro Morgannwg	111,736,304	110,310,755	-1,425,549	-1.3%
Rhondda Cynon Taf	288,555,837	290,955,964	2,400,127	0.8%
Merthyr Tudful	71,390,924	72,243,608	852,684	1.2%
Caerffili	210,207,117	211,104,979	897,862	0.4%
Blaenau Gwent	87,190,651	88,187,251	996,600	1.1%
Torfaen	102,244,778	103,109,907	865,129	0.8%
Sir Fynwy	63,040,665	61,788,216	-1,252,449	-2.0%
Casnewydd	166,484,931	167,106,461	621,530	0.4%
Caerdydd	325,564,019	328,125,746	2,561,727	0.8%
Yr Heddlu				
Dyfed-Powys	4,278,107	4,454,702	176,595	4.1%
Gwent	21,332,800	21,827,973	495,173	2.3%
Gogledd Cymru	10,364,047	10,655,048	291,001	2.8%
De Cymru	52,425,046	53,412,277	987,231	1.9%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	3,215,760,220	3,226,010,969	10,250,749	0.3%
Cyfanswm yr heddluoedd	88,400,000	90,350,000	1,950,000	2.2%
Cyfanswm Cymru	3,304,160,220	3,316,360,969	12,200,749	0.4%

¹ Dyraniadau gwirioneddol 2018-2019 - ni wneir addasiadau ar gyfer adnoddau ychwanegol yn 2019-2020

² Nid yw'n cynnwys Cyllid Atodol Ychwanegol

TABLAU CRYNHOI

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Cymharu'r Ardrethi Annomestig rhwng 2018-19 a 2019-20

£ oedd

Awdurdod Unedol	Setliad 2018-2019	Setliad 2019-2020	Newid	Newid fel canran
Ynys Môn	22,574,199	22,753,674	179,475	0.8%
Gwynedd	40,191,089	40,502,468	311,379	0.8%
Conwy	38,159,760	38,496,963	337,203	0.9%
Sir Ddinbych	30,258,811	30,596,859	338,048	1.1%
Sir y Fflint	49,125,564	49,704,455	578,891	1.2%
Wrecsam	43,090,579	42,924,171	-166,408	-0.4%
Powys	43,212,996	43,708,126	495,130	1.1%
Ceredigion	24,772,497	24,525,848	-246,649	-1.0%
Sir Benfro	40,034,154	40,575,534	541,380	1.4%
Sir Gaerfyrddin	59,612,133	60,292,694	680,561	1.1%
Abertawe	79,141,145	80,013,486	872,341	1.1%
Castell-nedd Port Talbot	45,607,965	46,100,360	492,395	1.1%
Pen-y-bont ar Ogwr	45,801,827	46,452,373	650,546	1.4%
Bro Morgannwg	40,744,175	41,759,541	1,015,366	2.5%
Rhondda Cynon Taf	75,620,335	76,383,152	762,817	1.0%
Merthyr Tudful	18,914,115	19,060,768	146,653	0.8%
Caerffili	57,033,337	57,509,290	475,953	0.8%
Blaenau Gwent	22,442,550	22,628,128	185,578	0.8%
Torfaen	29,297,933	29,540,013	242,080	0.8%
Sir Fynwy	30,176,931	30,681,632	504,701	1.7%
Casnewydd	46,305,143	47,236,731	931,588	2.0%
Caerdydd	115,382,762	116,503,734	1,120,972	1.0%
Yr Heddlu				
Dyfed-Powys	8,822,725	8,900,116	77,391	0.9%
Gwent	9,750,310	9,873,463	123,153	1.3%
Gogledd Cymru	11,757,895	11,840,978	83,083	0.7%
De Cymru	22,169,070	22,435,443	266,373	1.2%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	997,500,000	1,007,950,000	10,450,000	1.0%
Cyfanswm yr heddluoedd	52,500,000	53,050,000	550,000	1.0%
Cyfanswm Cymru	1,050,000,000	1,061,000,000	11,000,000	1.0%

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Y Newid Cyffredinol mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) plws Cyllid Atodol ¹²

£ oedd

Newid i'r AEF Net plws Cyllid Atodol rhwng 2018-2019 a 2019-2020					
Awdurdod Unedol	Grant Cynnal Refeniw (RSG) a Grant yr Heddlu	Cyfran o'r Ardrethi Annomestig	Cyllid Atodol Ychwanegol	Cyfanswm	Canran
Ynys Môn	-469,458	179,475	269,160	-20,823	0.0%
Gwynedd	1,113,080	311,379	0	1,424,459	0.8%
Conwy	-411,861	337,203	652,509	577,851	0.4%
Sir Ddinbych	179,465	338,048	0	517,513	0.4%
Sir y Fflint	-1,291,492	578,891	536,757	-175,844	-0.1%
Wrecsam	781,951	-166,408	0	615,543	0.4%
Powys	-1,444,458	495,130	1,213,511	264,183	0.2%
Ceredigion	1,087,066	-246,649	0	840,417	0.8%
Sir Benfro	132,168	541,380	0	673,548	0.4%
Sir Gaerfyrddin	268,267	680,561	0	948,828	0.4%
Abertawe	2,251,328	872,341	0	3,123,669	1.0%
Castell-nedd Port Talbot	1,962,540	492,395	0	2,454,935	1.2%
Pen-y-bont ar Ogwr	-425,508	650,546	0	225,038	0.1%
Bro Morgannwg	-1,425,549	1,015,366	0	-410,183	-0.3%
Rhondda Cynon Taf	2,400,127	762,817	0	3,162,944	0.9%
Merthyr Tudful	852,684	146,653	0	999,337	1.1%
Caerffili	897,862	475,953	0	1,373,815	0.5%
Blaenau Gwent	996,600	185,578	-717,323	464,855	0.4%
Torfaen	865,129	242,080	0	1,107,209	0.8%
Sir Fynwy	-1,252,449	504,701	708,706	-39,042	0.0%
Casnewydd	621,530	931,588	0	1,553,118	0.7%
Caerdydd	2,561,727	1,120,972	0	3,682,699	0.8%
Yr Heddlu					
Dyfed-Powys	958,175	77,391	0	1,035,566	2.1%
Gwent	1,378,070	123,153	0	1,501,223	2.1%
Gogledd Cymru	1,423,195	83,083	0	1,506,278	2.1%
De Cymru	3,039,165	266,373	0	3,305,538	2.1%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	10,250,749	10,450,000	2,663,320	23,364,069	0.6%
Cyfanswm yr heddluoedd	6,798,605	550,000	0	7,348,605	2.1%
Cyfanswm Cymru	17,049,354	11,000,000	2,663,320	30,712,674	0.7%

¹ Ni wneir unrhyw addasiadau ar gyfer cyfrifoldebau neu drosglwyddiadau newydd yn 2018-19

² Heb gynnwys grantiau penodol nad ydynt yn gysylltiedig â'r heddlu na chyrrff penodedig, ond yn cynnwys Grantiau Heddlu penodol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Gwasanaethau: Addysgu ysgolion Meithrin a Chynradd a gwasanaethau eraill

Awdurdod Unedol	£000oedd IBA 2018-19	£000oedd IBA 2019-20	Cyfran ganrannol 2019-20
Ynys Môn	24,584	24,919	2.38
Gwynedd	41,611	41,530	3.97
Conwy	34,712	34,918	3.34
Sir Ddinbych	33,391	33,816	3.23
Sir y Fflint	51,961	52,720	5.04
Wrecsam	47,404	47,604	4.55
Powys	42,516	42,533	4.07
Ceredigion	22,547	22,897	2.19
Sir Benfro	41,956	41,874	4.00
Sir Gaerfyrddin	63,741	64,342	6.15
Abertawe	77,608	78,176	7.47
Castell-nedd Port Talbot	46,468	46,826	4.48
Pen-y-bont ar Ogwr	47,465	48,185	4.61
Bro Morgannwg	45,043	45,935	4.39
Rhondda Cynon Taf	82,633	83,235	7.96
Merthyr Tudful	20,056	20,438	1.95
Caerffili	62,679	63,248	6.05
Blaenau Gwent	22,441	22,796	2.18
Torfaen	30,724	31,343	3.00
Sir Fynwy	27,201	27,580	2.64
Casnewydd	52,799	54,343	5.19
Caerdydd	115,991	116,805	11.17
Cymru	1,035,533	1,046,064	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:	Dangosydd:
0.815 x	Disgyblion ysgol cynradd a disgyblion ysgol feithrin a fodelwyd
0.098 x	Trothwy anheddiad 1,000
0.087 x	Disgyblion ysgol gynradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

IBAs GWASANAETHAU
Ysgolion prif ffrwd

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Gwasanaethau: Addysgu mewn ysgolion uwchradd a gwasanaethau eraill

Awdurdod Unedol	£000oedd IBA 2018-19	£000oedd IBA 2019-20	Cyfran ganrannol 2019-20
Ynys Môn	17,721	17,413	2.12
Gwynedd	31,350	31,669	3.86
Conwy	29,037	28,567	3.48
Sir Ddinbych	29,663	29,488	3.59
Sir y Fflint	41,853	41,504	5.05
Wrecsam	30,978	30,799	3.75
Powys	33,422	33,035	4.02
Ceredigion	18,142	18,082	2.20
Sir Benfro	30,851	30,694	3.74
Sir Gaerfyrddin	50,991	50,707	6.18
Abertawe	62,663	62,538	7.62
Castell-nedd Port Talbot	40,212	40,346	4.91
Pen-y-bont ar Ogwr	39,046	38,298	4.66
Bro Morgannwg	36,923	37,077	4.52
Rhondda Cynon Taf	69,588	70,432	8.58
Merthyr Tudful	15,153	15,133	1.84
Caerffili	53,039	52,751	6.42
Blaenau Gwent	16,057	15,799	1.92
Torfaen	27,152	27,249	3.32
Sir Fynwy	20,152	20,181	2.46
Casnewydd	42,483	42,605	5.19
Caerdydd	85,830	86,706	10.56
Cymru	822,308	821,073	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:	Dangosydd:
0.777 x	Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 i 11
0.093 x	Disgyblion ysgol uwchradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
0.075 x	Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 10 i 11
0.055 x	Trothwy anheddiad 7,500

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Gwasanaethau: Addysg Arbennig

Awdurdod Unedol	£000oedd IBA 2018-19	£000oedd IBA 2019-20	Cyfran ganrannol 2019-20
Ynys Môn	5,210	5,368	2.28
Gwynedd	8,794	9,003	3.82
Conwy	8,138	8,378	3.56
Sir Ddinbych	7,373	7,604	3.23
Sir y Fflint	11,848	12,141	5.15
Wrecsam	10,545	10,882	4.62
Powys	8,987	9,159	3.89
Ceredigion	4,606	4,720	2.00
Sir Benfro	9,062	9,330	3.96
Sir Gaerfyrddin	13,791	14,146	6.00
Abertawe	16,450	16,854	7.15
Castell-nedd Port Talbot	10,702	11,020	4.68
Pen-y-bont ar Ogwr	10,388	10,664	4.53
Bro Morgannwg	9,475	9,730	4.13
Rhondda Cynon Taf	18,983	19,549	8.30
Merthyr Tudful	4,801	4,932	2.09
Caerffili	14,515	14,866	6.31
Blaenau Gwent	5,430	5,599	2.38
Torfaen	7,314	7,527	3.19
Sir Fynwy	6,405	6,528	2.77
Casnewydd	11,396	11,705	4.97
Caerdydd	24,913	25,892	10.99
Cymru	229,126	235,596	100.00

Fformiwlâ:

Pwysoliad:	Dangosydd:
0.800 x	Y boblogaeth 3 i 16 oed (rhagamcan)
0.100 x	Trothwy anheddiad 40,000
0.033 x	Plant dibynnol ar aelwydydd oedolion sengl
0.033 x	Plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith
0.033 x	Plant dibynnol ar aelwydydd lle mae'r penteulu mewn dosbarth galwedigaethol isel

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

IBAs GWASANAETHAU
Ysgolion prif ffrwd

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Gwasanaethau: Cyflog Athrawon

Awdurdod Unedol	£000oedd IBA 2018-19	£000oedd IBA 2019-20	Cyfran ganrannol 2019-20
Ynys Môn	n/a	311	2.27
Gwynedd	n/a	537	3.91
Conwy	n/a	469	3.42
Sir Ddinbych	n/a	463	3.37
Sir y Fflint	n/a	694	5.06
Wrecsam	n/a	583	4.25
Powys	n/a	553	4.03
Ceredigion	n/a	298	2.17
Sir Benfro	n/a	535	3.89
Sir Gaerfyrddin	n/a	843	6.14
Abertawe	n/a	1,029	7.49
Castell-nedd Port Talbot	n/a	641	4.67
Pen-y-bont ar Ogwr	n/a	634	4.62
Bro Morgannwg	n/a	605	4.41
Rhondda Cynon Taf	n/a	1,131	8.24
Merthyr Tudful	n/a	264	1.93
Caerffili	n/a	854	6.22
Blaenau Gwent	n/a	288	2.10
Torfaen	n/a	432	3.14
Sir Fynwy	n/a	354	2.58
Casnewydd	n/a	709	5.17
Caerdydd	n/a	1,497	10.91
Cymru	n/a	13,726	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:	Dangosydd:
0.405445	x Disgyblion ysgol cynradd a disgyblion ysgol feithrin a fodelwyd
0.303402	x Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 i 11
0.089634	x Y boblogaeth 3 i 16 oed (rhagamcan)
0.048753	x Trothwy anheddiad 1,000
0.043281	x Disgyblion ysgol gynradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
0.036314	x Disgyblion ysgol uwchradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
0.029286	x Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 10 i 11
0.021476	x Trothwy anheddiad 7,500
0.011204	x Trothwy anheddiad 40,000
0.003735	x Plant dibynnol ar aelwydydd oedolion sengl
0.003735	x Plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith
0.003735	x Plant dibynnol ar aelwydydd lle mae'r penteulu mewn dosbarth galwedigaethol isel

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Gwasanaethau: Gwasanaethau cludiant ysgolion Meithrin a Chynradd

Awdurdod Unedol	£000oedd IBA 2018-19	£000oedd IBA 2019-20	Cyfran ganrannol 2019-20
Ynys Môn	793	766	3.06
Gwynedd	1,505	1,441	5.77
Conwy	1,181	1,137	4.55
Sir Ddinbych	1,050	1,014	4.06
Sir y Fflint	1,055	1,009	4.04
Wrecsam	1,124	1,079	4.32
Powys	2,242	2,155	8.62
Ceredigion	1,328	1,274	5.10
Sir Benfro	1,271	1,222	4.89
Sir Gaerfyrddin	1,605	1,537	6.15
Abertawe	1,424	1,370	5.48
Castell-nedd Port Talbot	966	931	3.73
Pen-y-bont ar Ogwr	932	900	3.60
Bro Morgannwg	929	890	3.56
Rhondda Cynon Taf	1,516	1,465	5.86
Merthyr Tudful	501	481	1.93
Caerffili	1,161	1,114	4.46
Blaenau Gwent	489	473	1.89
Torfaen	646	624	2.50
Sir Fynwy	964	921	3.68
Casnewydd	1,052	1,017	4.07
Caerdydd	2,241	2,175	8.70
Cymru	25,977	24,996	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:	Dangosydd:
0.673 x	Y boblogaeth 3 i 11 oed (rhagamcan)
0.327 x	Ardal fesul mynegai ysgol uwchradd a fodelwyd

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

IBAs GWASANAETHAU
Gwasanaethau ysgol eraill

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019-2020

Gwasanaethau: Prydau ysgol

Awdurdod Unedol	£000oedd IBA 2018-19	£000oedd IBA 2019-20	Cyfran ganrannol 2019-20
Ynys Môn	1,272	1,210	3.08
Gwynedd	1,913	1,832	4.66
Conwy	1,275	1,221	3.11
Sir Ddinbych	1,256	1,229	3.13
Sir y Fflint	1,524	1,441	3.67
Wrecsam	1,611	1,577	4.01
Powys	1,514	1,445	3.68
Ceredigion	1,173	1,137	2.89
Sir Benfro	1,599	1,612	4.10
Sir Gaerfyrddin	2,426	2,368	6.03
Abertawe	2,824	2,766	7.04
Castell-nedd Port Talbot	2,063	2,019	5.14
Pen-y-bont ar Ogwr	1,888	1,797	4.57
Bro Morgannwg	1,280	1,227	3.12
Rhondda Cynon Taf	3,463	3,342	8.50
Merthyr Tudful	910	866	2.20
Caerffili	2,471	2,318	5.90
Blaenau Gwent	1,085	1,012	2.58
Torfaen	1,219	1,143	2.91
Sir Fynwy	843	796	2.02
Casnewydd	2,255	2,132	5.42
Caerdydd	4,987	4,807	12.23
Cymru	40,851	39,299	100.00

Fformiwla:

